CYMDEITHAS ABERAERON SOCIETY

Coffáu Canmlwyddiant Rheilffordd Aberaeron

PAWB AR Y TRÊN!

100 MLYNEDD

1911 – 2011



www.cymdeithasaberaeron.org

Y dyddiau cynnar

Agorwyd y rheilffordd i Aberayron yn swyddogol ar 12 Mai 1911 gan Mrs Edith Gwynne, chwaer J C Harford, Cadeirydd Cwmni Rheilffordd Ysgafn Llanbedr Pont Steffan, Aberayron a Chei Newydd. Ar yr un diwrnod, cafodd tua 400 o blant ysgol Aberayron a'r ardal daith am ddim i Felin Fach ac yn ôl, a teithiodd plant o Ddyffryn Aeron i Aberayron ac yn ôl am ddim; i'r rhan fwyaf, hwn oedd eu taith cyntaf ar drên.

Roedd y rheilffordd yn boblogaidd iawn; yn y mis cyntaf, gwerthwyd dros 9,000 o docynnau gan drawsnewid bywydau nifer o bobl a busnesau. Bellach, nid oedd rhaid i blant Ysgol y Sir o Ddyffryn Aeron fyw yn Aberaeron yn ystod yr wythnos oherwydd roedd modd iddynt deithio yno'n ddyddiol.

Wyddoch chi?

- Roedd cryn gynnwrf yn yr ardal pan ddaeth y syrcas i'r dref gan gludo'r anifeiliaid ar y trên a cludwyd holl ddifyrrwch y ffair ar y trên ar gyfer y ffair flynyddol ar 13 Tachwedd.
- Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yr orsaf oedd y peth cyntaf y gwelsai'r plant noddedig wrth gyrraedd y dref.
- Dim ond hyd 1951 y bu'r rheilffordd yn cludo teithwyr ond bu'n cario nwyddau hyd nes i'r rheilffordd gau yn derfynol wedi iddi gael ei hadnabod fel lein amhroffidiol. Gadawodd y trên olaf Aberayron yn 1965.
- Ychydig fyddai wedi rhagweld mai dim ond am 40 mlynedd y buasai'r rheilffordd yn gwasanaethu teithwyr.

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

CYNNAL Y CARDI
Creating Sustainable Communities